**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Gwaun Gynfi**
**Deiniolen**
**Gwynedd**
**LL55 3LT**

**Rhif yr Ysgol: 6612000**

**Dyddiad yr Arolygiad: 1 Hydref 2007**

**gan**

**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 3 Rhagfyr 2007**

**O dan rif contract Estyn: 1101707**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

101 Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â gofynion y CC ac addysg grefyddol, a'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Plant. Darparwyd polisïau a chynlluniau gwaith manwl ar gyfer yr holl feysydd, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar. Mae'r cynllunio'n drylwyr ac yn sicrhau gweithgareddau symbylus a diddorol iawn yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau. Mae'r cynllunio gwahaniaethol penodol a wneir yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n sylweddol tuag at godi safonau ieithyddol y disgyblion.

102 Cynllunnir yn fanwl ar gyfer datblygu'r medrau allweddol a'r medrau sylfaenol, a rhoddir lle amlwg i'r Cwricwlwm Cymreig a threftadaeth Cymru yn y ddarpariaeth. Darperir yn dda, trwy gynllunio bwriadus, ar gyfer datblygu hyfedredd dwyieithog y disgyblion.

103 Mae'r profiadau dysgu eang a gaiff y disgyblion yn hyrwyddo'n llwyddiannus eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ganddynt ymdeimlad clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'i hamgylchedd.